O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 559 (Cy. 84)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Brynmawr, Blaenau Gwent i Gilwern, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *24 Chwefror 2012* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mawrth 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd neu ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 5 Mawrth 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Brynmawr, Blaenau Gwent i Gilwern, Sir Fynwy) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 5 Mawrth 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n derfynol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road" )* yw'r darnau hynny o gefnffordd yr A465 rhwng Brynmawr ym Mwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a Gilwern yn Sir Fynwy a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 ar waith.

**7.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Chwefror 2012

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

# YR ATODLENNI

## ATODLEN 1
## Terfyn Cyflymder o 50 mya Dros Dro

Darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn i gyfeiriad y dwyrain o bwynt 1187 o fetrau i'r gogledd-orllewin o Gylchfan Brynmawr, Brynmawr i bwynt 187 o fetrau i'r gogledd o'r gylchfan honno.

## ATODLEN 2
## Terfynau Cyflymder o 40 mya neu 10mya Dros Dro a Dim Goddiweddyd

Darn o gerbytffordd tua dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 187 o fetrau i'r gogledd o Gylchfan Brynmawr, Brynmawr i bwynt 60 o fetrau i'r gorllewin o'r lle y mae'n ymgyfuno â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden, Gilwern.

Darn o gerbytffordd tua gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 25 o fetrau i'r gorllewin o'r lle y mae'n ymgyfuno â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Glanbaiden, Gilwern i bwynt 187 o fetrau i'r gogledd o Gylchfan Brynmawr, Brynmawr.

## ATODLEN 3
## Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Hyd cyfan pob cilfan sy'n gyfagos i gerbytffyrdd tua dwyrain a thua gorllewin y gefnffordd rhwng Cylchfan Brynmawr, Brynmawr a Chylchfan Glanbaiden, Gilwern.

Darn o gerbytffordd gylchredol Cylchfan Brynmawr, Brynmawr sy'n ymestyn o ganol ei chyffordd â'r A467 i ganol ei chyffordd â'r A4047.